**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Prentisiaethau yng Nghymru ac yn y DU
Rhagfyr 2011

Mae'r papur hwn yn nodi'r wybodaeth am y rhaglenni prentisiaethau sydd ar gael yng Nghymru. Mae hefyd yn egluro sut y datblygir y rhaglenni hyn a sut y gallant ymateb i angen lleol, ac yn archwilio'r ffactorau allai effeithio ar gwblhau prentisiaethau. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth am raglenni prentisiaethau yng ngwledydd eraill y DU.

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Rhif ymholiad:** 11/2769

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Prentisiaethau yng Nghymru ac yn y DU
Rhagfyr 2011

Rachel O'Toole

Rhif dogfen: 11/067

Gwasanaeth
Ymchwil

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ..... **1**

**2. Prentisiaethau yng Nghymru** ..... **2**

2.1. Rhaglenni prentisiaethau ..... 3
2.2. Llwybrau at Brentisiaethau ..... 3
2.3. Prentisiaethau a Rennir ..... 4
2.4. Rhaglenni sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau ..... 4
2.5. Prentisiaethau a chymwysterau eraill ..... 6

**3. Prentisiaethau ac anghenion sgiliau** ..... **7**

**4. Cyfraddau cwblhau** ..... **7**

**5. Prentisiaethau ledled y DU** ..... **8**

5.1. Lloegr ..... 8
5.2. Gogledd Iwerddon ..... 10
5.3. Yr Alban ..... 11

**Rhagor o wybodaeth** ..... **12**

# Prentisiaethau yng Nghymru ac yn y DU

## 2. Cyflwyniad

Mae natur prentisiaethau wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf. Maent ar gael yn awr y tu allan i feysydd 'traddodiadol' cynhyrchu a gweithgynhyrchu, mewn pynciau yn amrywio o gyfrifyddiaeth i'r celfyddydau. Gall y galw am brentisiaethau gynyddu dros y blynyddoedd nesaf o ganlyniad i ffactorau fel costau addysg uwch.

Yn 2009-10 yng Nghymru, roedd **20,075**[1] **o ddysgwyr ar Brentisiaethau Modern Sylfaenol ac roedd 16,305 ar Brentisiaethau Modern**.[2] Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd ei rhaglen Twf Swyddi Cymru newydd yn creu 4,000 o raglenni hyfforddi a phrentisiaethau bob blwyddyn ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.[3]

Erbyn canol y 1960au, roedd tua un rhan o dair o fechgyn a oedd yn gadael yr ysgol pan oeddynt rhwng 15 a 17 oed yn dilyn prentisiaeth. Rhwng canol y 1960au a 1990, cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc a oedd yn dilyn prentisiaeth.[4] Yn ôl y Gwasanaeth Prentisiaeth Cenedlaethol, gwaethygwyd y gostyngiad yn sgil y cynnydd yn nifer y disgyblion ôl-16 a oedd mewn addysg llawn amser, y diffyg arian cyhoeddus ar gyfer prentisiaethau, ac effaith y Cynllun Hyfforddi Ieuenctid a'r Rhaglen Hyfforddi Ieuenctid, a gyfrannodd at y ddelwedd wael o hyfforddiant galwedigaethol yn gyffredinol. [5]

Cafwyd cynllun peilot ar gyfer 'Prentisiaethau Modern' ym 1994, a chawsant eu datblygu yn sylweddol ar ôl hynny. Yn 2006, comisiynodd Llywodraeth y DU arolwg gan yr Arglwydd Leitch ar y polisi sgiliau yn y DU. Roedd ei adroddiad yn cynnwys argymhelliad y dylai fod 500,000 o brentisiaid yn cael eu dysgu yn y DU erbyn 2020.

Mae addysg a hyfforddiant, sy'n cynnwys prentisiaethau, yn faterion datganoledig. Fodd bynnag, mae'r prentisiaethau i gyd yn dilyn strwythur 'fframwaith', i raddau helaeth, sy'n nodi gofynion pob lefel o'r prentisiaethau, a ddatblygwyd yn rhannol gan y Cynghorau Sgiliau Sector.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi fframweithiau prentisiaethau (fel y'u datblygwyd gan gyflogwyr, cyrff gosod safonau a'r Cynghorau Sgiliau Sector yn

---

[1] Ar sail blwyddyn lawn

[2] Llywodraeth Cymru, *Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru, 2009/10 a 2010/11 (ffigurau cynnar)* [fel ar 21 Tachwedd 2011]

[3] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (y Gweinidog Addysg a Sgiliau), *Twf Swyddi Cymru*, Datganiad Cabinet Llafar, 11 Hydref 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011] Ceir rhagor o wybodaeth am Twf Swyddi Cymru ar dudalen 9 o'r Papur Ymchwil hwn

[4] Y Gwasanaeth Prentisiaethau Cenedlaethol, tudalen *History of Apprenticeships* ar y wefan, a Harari, D, *Apprenticeships - Commons Library Standard Note*, 24 Mehefin 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]

[5] Y Gwasanaeth Prentisiaethau Cenedlaethol, *History of Apprenticeships* [fel ar 21 Tachwedd 2011]

unol â manylion safonau prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr) wedi'u nodi yn *Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009.*

Dywedodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn ddiweddar:

> Er ein bod wedi ymrwymo i gadw rhaglen Brentisiaeth ar gyfer pob oed, **bydd y pwyslais fwyfwy ar greu cyfleoedd i bobl ifanc o dan 25**. Roedd hwn yn ymrwymiad pwysig yn y maniffesto.[6] [pwyslais yr awdur]

Yn ei Rhaglen Lywodraethu, mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai un o'i phrif gamau gweithredu **yw cynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc ddilyn prentisiaeth.**[7]

## 3. Prentisiaethau yng Nghymru

Gan fod addysg a hyfforddiant, sy'n cynnwys prentisiaethau, yn faterion datganoledig, mae union gynnwys rhaglenni prentisiaethau'n amrywio rhwng gwledydd y DU. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwahanol strwythurau cymwyseddau a blaenoriaethau sector sydd ar waith ym mhob gwlad.

Mae'r Cynghorau Sgiliau Sector ar lefel y DU hefyd yn cyfrannu at ddatblygu fframweithiau prentisiaethau. Mae'r cynghorau yn sefydliadau cyflogwyr sydd â'r rôl ganolog o gyfrannu gwybodaeth am anghenion sgiliau at y broses o wneud polisi, gan gynnwys datblygu fframweithiau prentisiaethau. Maent hefyd yn ffynhonnell gwybodaeth ar gyfer cyflogwyr a phrentisiaid, gan gynnwys y rheini sy'n edrych am gyfleoedd, ac mae ganddynt rôl o ran hysbysebu swyddi gwag. Mae 24 o gynghorau yn gweithredu ledled y DU ac maent yn ymdrin â diwydiannau sy'n amrywio o'r diwydiant logisteg cludiant i'r celfyddydau, amgueddfeydd ac orielau. Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector yw'r sefydliad ymbarél ar gyfer y Cynghorau Sgiliau Sector yn y DU ac mae ganddi swyddfa yng Nghymru. Mae gan y rhan fwyaf o'r cynghorau unigol swyddfa neu bwynt cyswllt yng Nghymru hefyd.

Gan fod prentisiaethau yn rhaglenni hyfforddi seiliedig ar waith, mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn digwydd 'mewn swydd'. **Mae Llywodraeth Cymru** ac, mewn rhai achosion, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, **yn darparu'r cyllid ar gyfer yr hyfforddiant**. Mae'r cyllid hwn yn talu am gostau **hyfforddi ac asesu** prentisiaid ac fe'i telir yn uniongyrchol i'r sefydliad sy'n darparu ac yn cefnogi'r brentisiaeth; sef y darparwr dysgu gan amlaf.[8]

---

[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, *EBC(4)-01-11 Papur 1 – Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau*, 13 Gorffennaf 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]

[7] Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn cyfeirio at y cyfleoedd i ddilyn prentisiaethau sydd ar gael drwy'r Rhaglen Recriwtiaid Ifanc, sy'n cynnig cymhorthdal cyflog i gyflogwyr sy'n cyflogi prentisiaid sydd rhwng 16 a 24 oed, a ceir rhagor o fanylion am hyn ar dudalennau 4-5 y papur hwn.

[8] Llywodraeth Cymru, *Prentisiaethau yng Nghymru: Hyfforddiant a chyllid* [fel ar 21 Tachwedd 2011]

## 3.1. *Rhaglenni prentisiaethau*

Mae tair lefel o brentisiaethau ar gael i unigolion 16 oed neu hŷn yng Nghymru:

- Prentisiaethau Sylfaenol (sy'n cyfateb i bump TGAU a basiwyd gyda graddau da)
- Prentisiaethau (sy'n cyfateb i ddau bwnc Safon Uwch a basiwyd), a
- Prentisiaethau Uwch.

Ar gyfer **Prentisiaethau Sylfaenol**, mae'r prentisiaid yn gweithio tuag at gael cymwysterau dysgu seiliedig ar waith, fel NVQ Lefel 2, Sgiliau Allweddol, ac, mewn rhai achosion, cymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth, fel BTEC.

Ar gyfer **Prentisiaethau**, mae'r prentisiaid yn gweithio tuag at gael cymwysterau dysgu seiliedig ar waith, fel NVQ Lefel 3, Sgiliau Allweddol, a, gan amlaf, tystysgrif berthnasol sy'n seiliedig ar wybodaeth, fel BTEC. I ddechrau'r rhaglen hon, yn ddelfrydol, dylai fod gan y prentisiaid bump TGAU (gradd C neu uwch) neu fod wedi cwblhau Prentisiaeth Sylfaenol.[9]

Mae **Prentisiaethau Uwch** yn gweithio tuag at gael cymwysterau dysgu seiliedig ar waith, fel NVQ Lefel 4, ac, mewn rhai achosion, gymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth, fel gradd sylfaenol.[10]

Cyflwynwyd Gwasanaeth Paru Prentisiaethau yn 2010 yn ardaloedd peilot Gwynedd/Ynys Môn, Abertawe/Castell-nedd a Phort Talbot, ac, yn 2011, dywedodd Leighton Andrews AC:

> Datblygiad pwysig eleni fydd cyflwyno'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau. Bydd y gwasanaeth hwn a gynigir ar y we yn galluogi prentisiaid posibl i gofrestru, chwilio am brentisiaethau gwag ac ymgeisio am brentisiaethau. Bydd cyflogwyr yn gallu cofrestru eu cwmnïau, cysylltu â darparwyr hyfforddiant lleol a hysbysebu prentisiaethau gwag.[11]

## 3.2. *Llwybrau at Brentisiaethau*

Mae **Llwybrau at Brentisiaethau** ar gael hefyd, sef dewis dwys wedi'i leoli mewn coleg ar gyfer pobl ifanc nad ydynt wedi paratoi ar gyfer prentisiaeth gyda chyflogwr, neu nad ydynt yn gallu cael hyd i brentisiaeth o'r fath. Mae hwn yn hyfforddiant dros flwyddyn ar gyfer dysgwyr rhwng 16 a 25 oed **i'w rhoi ar drywydd cyflym i gael cymhwyster Lefel 2 fel y gallant ddilyn prentisiaeth lawn.** O 2011-12, bydd y Llwybrau i Brentisiaethau yn cael eu halinio â chwe

---

[9] Llywodraeth CYmru, *Lefelau Prentisiaethau* [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[10] Ibid.
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, *EBC(4)-01-11 Papur 1 – Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau*, 13 Gorffennaf 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]

sector blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn Rhaglen Adnewyddu'r Economi Llywodraeth Cymru, sef TGCh; ynni a'r amgylchedd; deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch; y diwydiannau creadigol; gwyddorau bywyd; a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.[12] Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd Edwina Hart AC, y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, fod bwyd a ffermio, ac adeiladu a thwristiaeth wedi'u hychwanegu at sectorau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru.

Yng *Nghynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015*, mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd yn '**ceisio ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc fynd ar raglenni prentisiaeth, gan gynnwys datblygu'r fenter Llwybrau at Brentisiaethau a'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc fel rhan o'r cynnig am brentisiaeth'**.[13] [pwyslais yr awdur]

Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Gorffennaf 2011, darparodd Leighton Andrews y ffigurau a ganlyn ar y rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau:

> Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i'r rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau fel llwybr cryf i brentisiaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc. **Byddwn yn darparu oddeutu 2,000 o leoedd Llwybrau at Brentisiaeth yn 2011-12 ac yr ydym wedi sicrhau cymorth ariannol ESF i barhau â'r rhaglen hyd 2014.**[14] [pwyslais yr awdur]

## *3.3. Prentisiaethau a Rennir*

Mae'r rhaglen **Prentisiaethau a Rennir** yn ymwneud â busnesau bach. O dan y rhaglen hon, bydd mwy nag un cyflogwr yn gweithio gyda phrentis i sicrhau bod ei brofiad gwaith yn ateb gofynion y fframwaith.

## *3.4. Rhaglenni sy'n gysylltiedig â phrentisiaethau*

Mae'r rhaglen **Recriwtiaid Ifanc** yn cynnig **cymhorthdal cyflog i gyflogwyr sy'n rhoi prentisiaeth i rywun 16-24 oed**.

Dywedodd Leighton Andrews ym mis Gorffennaf 2011 y bydd 1,000 o leoedd i Recriwtiaid Ifanc ar gael eleni a bod y lefel hon o weithgaredd wedi'i chyfrifo mewn dyraniadau contractau.[15] Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfeirio at y cyfleoedd i ddilyn prentisiaeth sydd ar gael drwy'r rhaglen Recriwtiaid Ifanc.

---

[12] Llywodraeth Cymru, Leighton Andrews (y Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes), *Sgiliau ar gyfer Adnewyddu'r Economi*, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 10 Mawrth 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[13] Llywodraeth Cymru, *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-15* [fel ar 3 Tachwedd 2011] Mae'r Rhaglen Recriwitiaid Ifanc yn cynnig cymhorthdal cyflog i gyflogwyr sy'n cyflogi prentisiaid sydd rhwng 16 a 24 oed. Ceir rhagor o fanylion am hyn ar dudalennau 4-5 y papur hwn.
[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, *EBC(4)-01-11 Papur 1 – Tystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau a'r Dirprwy Weinidog Sgiliau*, 13 Gorffennaf 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[15] Ibid

Bydd '**Llwybr at Waith**' newydd ar gyfer pobl ifanc 16-17 oed yn destun rhaglen beilot hefyd. Fe'i cyhoeddwyd yn y *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc* ar gyfer mis Tachwedd 2011, ac fe'i disgrifir gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

> Treialu **'Llwybr at Waith' newydd i bobl ifanc rhwng 16 ac 17 oed.** Ni fydd hon yn rhaglen newydd ond yn un 'llwybr' hyblyg a chydlynol i bobl ifanc. **Byddai'n cyfuno'r dulliau cyfredol, wedi'u gwella lle bo angen, i fod yn rhaglen sy'n cynnig llwybr hyblyg ond sydd hefyd yn llwybr integredig a pharhaus tuag at gyflogaeth gynaliadwy neu ganlyniad positif arall. Bydd cyflawniadau'r person ifanc yn cael eu dathlu ar bwyntiau allweddol ar hyd y llwybr, gan gynnwys cyflawniadau sgiliau meddal.**[16] [pwyslais yr awdur]

Mae nifer o raglenni hyfforddiant sgiliau hefyd yn bodoli. Mae'r mentrau **Hyfforddeiaethau** (ar gyfer pobl ifanc di-waith) a **Camau at Waith** (ar gyfer oedolion di-waith) yn olynwyr i Adeiladu Sgiliau, sef rhaglen ar gyfer pobl nad ydynt yn barod i ddilyn prentisiaethau neu ddysgu pellach, neu fanteisio ar gyfleoedd cyflogi, neu nad ydynt yn gallu gwneud hynny. Mae Jeff Cuthbert AC, y Dirprwy Weinidog Sgiliau, wedi dweud ei fod yn disgwyl i'r rhaglen Hyfforddeithaethau ddatblygu fel dewis galwedigaethol o fewn y llwybr dysgu 14-19.[17]

Mae'r **Rhaglen Adduned Cyflogwr** yn llunio rhan o Brosiect Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle Llywodraeth Cymru ac mae'n rhaglen hyfforddiant sgiliau ar gyfer y gweithlu. Darperir y cynllun ynghyd â'r cymorth sgiliau sydd ar gael drwy **Raglen Datblygu'r Gweithlu.**[18]

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd ei rhaglen **Twf Gwaith Cymru,** a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2012, yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc di-waith rhwng 16 a 24 oed gael swyddi am gyfnod o chwe mis. Mae wedi'i anelu at y rheini sy'n barod i gael gwaith ond sy'n cael trafferth dod o hyd i waith, a bydd y cyfranogwyr yn cael yr isafswm cyflog cenedlaethol neu fwy na hynny am isafswm o 25 awr yr wythnos.[19]

Ceir rhagor o wybodaeth am rai o'r rhaglenni hyfforddiant sgiliau hyn mewn Papur Ymchwil a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil: *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant* (Medi 2011).

---

[16] Llywodraeth Cymru, *Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-15* [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[17] Llywodraeth Cymru, Datganiad Newyddion, *Dechrau rhaglenni newydd a fydd yn helpu pobl i ymuno â byd gwaith,* 1 Awst 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[18] Llywodraeth Cymru, *Adduned y Cyflogwr* a *Sgiliau Sylfaenol yn y Gweithle* [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[19] Llywodraeth Cymru, *Twf Swyddi Cymru* [fel ar 21 Tachwedd 2011]

## *3.5. Prentisiaethau a chymwysterau eraill*

Mae cymwysterau galwedigaethol yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gymwysterau sy’n cynnwys prentisiaethau.

Mae Jeff Cuthbert AC yn arwain arolwg Llywodraeth Cymru ar gymwysterau (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol) a gynigir i’r grŵp oedran 14 i 19 ar hyn o bryd. Dywedodd yr hyn a ganlyn am yr arolwg:

> **It will focus on what is valuable**, and what we mean by that term is **what is likely to help young people to get into employment or self-employment as a result of the courses that they study**.[20] [pwyslais yr awdur]

Bydd adroddiad terfynol ar yr arolwg yn cael ei gyhoeddi **tua diwedd 2012** a bydd y sawl sy’n cynnal yr arolwg yn gweithio gyda phartneriaid i nodi’r cymwysterau mwyaf perthnasol i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed. Wrth asesu perthnasedd y cymwysterau, bydd yr arolwg yn:

> canolbwyntio ar y gwerth i ddysgwyr o ran paratoi ar gyfer y camau nesaf mewn addysg, cyflogaeth neu hunangyflogaeth, a chael mynediad at y camau hyn, yn ogystal **â'r gwerth a roddir ar gymwysterau gan gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch.**[21] [pwyslais yr awdur]

Caiff cymwysterau dysgu seiliedig ar waith sy’n llunio rhan o’r rhaglenni prentisiaethau eu cynnig yn aml mewn sefydliadau addysg bellach. Mewn rhai achosion, mae rhaglenni Prentisiaethau Uwch yn rhan o radd sylfaenol, y gall sefydliadau addysg bellach ac uwch eu gwobrwyo.

Mae Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (‘UHOVI’), sef partneriaeth strategol rhwng Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach, er enghraifft, yn cynnig cyrsiau sy’n cynnwys rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a graddau sylfaenol.

Gall costau addysg uwch, a waethygwyd i rai oherwydd effaith yr amgylchiadau economaidd diweddar, arwain at gynnydd yn y galw am hyfforddiant mewn swydd ar draul astudio am radd. Felly, mae’n hanfodol bod pobl ifanc yn cael y cyngor a’r wybodaeth gywir. Clywodd Pwyllgor Menter a Dysgu’r Trydydd Cynulliad dystiolaeth, er enghraifft, fod gwaith ymchwil gan Engineering UK wedi canfod bod **40 y cant o gynghorwyr yn credu, yn anghywir, mai cael cymwysterau Safon Uwch a gradd yw’r unig ffordd o gael gyrfa mewn peirianeg, er bod prentisiaethau ac addysg bellach yn gymwys hefyd.** [pwyslais yr awdur]

---

[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Menter a Busnes, *Cofnod y Trafodion [para 82]*, 13 Gorffennaf 2011[fel ar 21 Tachwedd 2011]

[21] Llywodraeth Cymru, Jeff Cuthbert (y Dirprwy Weinidog Sgiliau), *Datganiad ysgrifenedig - Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed*, Datganiad Cabinet Ysgrifenedig, 29 Medi 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]

## 4. Prentisiaethau ac anghenion sgiliau

Gall datblygu cyfleoedd i ddilyn prentisiaeth mewn meysydd gwaith penodol fod yn ffordd o ddenu pobl ifanc i sector neu faes penodol o ddysgu. Er enghraifft, mae'n bosibl y gallai prentisiaethau mewn meysydd fel peirianeg fynd i'r afael â'r diffyg yn nifer y bobl sy'n astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg.

Mae enghreifftiau o brentisiaethau mewn sectorau penodol yng Nghymru yn amrywio o'r cyfle i fod yn brentis yn amgueddfa'r Big Pit ym Mlaenafon i gyfleoedd i fod yn rheolwr cyfrif yn y sectorau marchnata a hysbysebu.[22] O dan brosiect a ariannwyd gan y loteri, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth y Tywysog wedi cydweithio i gynnig prentisiaethau mewn pynciau sy'n cynnwys sgiliau treftadaeth a sgiliau i weithio fel ceidwad.[23]

Gall cydweithredu rhwng **sefydliadau addysgol a chyflogwyr sicrhau hefyd bod rhaglenni prentisiaethau'n ymateb i anghenion lleol.** Crëwyd rhaglenni dysgu seiliedig ar waith gan UHOVI mewn ymgynghoriad â chyflogwyr yn y rhanbarth 'i sicrhau bod dysgu a hyfforddi yn cyd-fynd â [..] nodau strategol' (busnesau).[24] Yn ogystal, mae prosiect prentisiaethau'n bodoli yng Ngwynedd sydd â'r diben o uno myfyrwyr coleg â chwmnïau yn yr ardal.[25]

## 5. Cyfraddau cwblhau

Mae nifer o resymau pam na fydd person ifanc yn cwblhau ei brentisiaeth.

Archwiliodd adroddiad a gyhoeddwyd yn 2009 gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau rai o'r rhesymau a roddwyd gan bobl ifanc dros beidio â chwblhau eu prentisiaethau. Nid oedd un rheswm yn dod i'r brig, ond y prif resymau a roddwyd oedd: nid oedd yr hyfforddiant fel y disgwylwyd iddo fod neu roedd yn ddiflas; nid oedd y cyflogwyr neu'r darparwyr hyfforddiant yn gefnogol; roeddent wedi dewis y maes gwaith anghywir; nid oedd y cyflog fel prentis yn ddigon uchel; neu roeddent wedi'u diswyddo.[26]

Mae adroddiad arall gan y Cyngor Dysgu a Sgiliau yn nodi:

> Being able to transfer between apprenticeships is important. Germany has relatively good

---

[22] BBC News, *Big Pit mining museum at Blaenavon to seek apprentices*, 20 Gorffennaf 2011, a Gyrfa Cymru, *Gwasanaeth Paru Prentisiaethau* [21 Tachwedd 2011]
[23] Western Mail, *£1.3m Lottery cash to boost active involvement in project to protect the Gower*, 1 Awst 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[24] UHOVI, *Yr hyn sydd ar gael i fusnesau* [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[25] Daily Post, *Gwynedd college launches new apprenticeship company with 30 placements*, 10 Awst 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[26] Y Cyngor Dysgu a Sgiliau, *The Benefits of Completing an Apprenticeship - London report*, Mehefin 2009. Mae Barnardos Cymru yn dyfynnu'r gwaith ymchwil hwn yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i ymchwiliad Pwyllgor Deisebau'r Trydydd Cynulliad ar ddysgu seiliedig ar waith *PET(3)-11-10:Papur 2 - Barnardos Cymru*, 28 Medi 2010 [fel ar 21 Tachwedd 2011]

> apprenticeship completion rates because where there is a mismatch between apprentice and apprenticeship, the apprentice can readily transfer to another apprenticeship to which they are better suited. Allowing apprentices to make, where necessary, an efficient transfer between apprenticeships is likely to improve completion rates.[27]

Gall ffactorau economaidd effeithio ar gyfraddau cwblhau prentisiaethau hefyd os bydd busnesau'n profi anawsterau ariannol.

## 6. Prentisiaethau ledled y DU

### *6.1. Lloegr*

Mae nifer y bobl ifanc sy'n dechrau ar brentisiaethau'n cynyddu yn Lloegr. Yn ôl ffigurau diweddar, dechreuodd 442,700 o bobl ar brentisiaethau yn y flwyddyn academaidd 2010-11 o'i gymharu â 279,000 yn y flwyddyn flaenorol.[28]

Mae tair lefel o brentisiaethau ar gael yn Lloegr, sef:

- **Prentisiaethau Lefel Ganolradd** – mae Prentisiaethau Canolradd yn llunio rhan o gymwysterau dysgu seiliedig ar waith, fel NVQ Lefel 2, Sgiliau Allweddol, ac, mewn rhai achosion, cymhwyster perthnasol sy'n seiliedig ar wybodaeth, fel BTEC. Mae'r rhain yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer yr yrfa a ddewisir ac yn caniatáu mynediad i Brentisiaeth Lefel Estynedig.
- **Prentisiaethau Lefel Estynedig** – mae Prentisiaethau Lefel Estynedig yn llunio rhan o gymwysterau dysgu seiliedig ar waith fel NVQ Lefel 3, Sgiliau Allweddol, ac, yn y rhan fwyaf o achosion, tystysgrif berthnasol sy'n seiliedig ar wybodaeth, fel BTEC. Yn ddelfrydol, i ddechrau'r rhaglen hon, dylai fod gan yr ymgeiswyr bump TGAU (gradd C neu uwch) neu fod wedi cwblhau Prentisiaeth Lefel Ganolradd.
- **Prentisiaethau Uwch** – mae Prentisiaethau Uwch yn llunio rhan o gymwysterau dysgu seiliedig ar waith fel NVQ Lefel 4, ac, mewn rhai achosion, cymwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth, fel gradd sylfaenol.[29]

Yn 2010-11, dechreuodd dwy ran o dair o brentisiaid ar Brentisiaethau Lefel Ganolradd ac roedd bron i draean ohonynt yn dechrau ar Brentisiaethau Lefel Estynedig. Roedd llai nag 1 y cant o'r prentisiaid yn dechrau ar Brentisiaethau Lefel Uwch.[30]

---

[27] Y Cyngor Dysgu a Sgiliau, *Maximising Apprenticeship Completion Rates*, Rhagfyr 2009 [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[28] Gwasanaeth Data yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau , *Tablau Atodol Prentisiaethau* (fel ar 21 Tachwedd 2011)
[29] Apprenticeships, *The Basics* [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[30] Gwasanaeth Data yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau , *Tablau Atodol Prentisiaethau* (fel ar 21 Tachwedd 2011)

Mae'r rhan fwyaf o fframweithiau prentisiaethau yn dilyn fformat sylfaenol sy'n cynnwys:

- Cymwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (ee Lefel 2 ar gyfer Prentisiaethau Lefel Ganolradd, Lefel 3 ar gyfer Prentisiaethau Lefel Estynedig)
- Sgiliau Trosglwyddadwy Allweddol
- Tystysgrif Dechnegol[31]

Ceir rhagor o wybodaeth am gydrannau gofynnol prentisiaethau ar wefan y *Gwasanaeth Prentisiaethau Cenedlaethol*.

Mae prentisiaid yn Lloegr yn cael isafswm cyflog o £2.66 yr awr gan eu cyflogwyr ac mae Llywodraeth y DU yn talu am ran o'r costau hyfforddi, gan ddibynnu ar oedran y prentis:

- 100 y cant o'r costau hyfforddi os yw'r prentis rhwng 16 a 18 oed
- 50 y cant o'r costau hyfforddi os yw'r prentis rhwng 19 a 24 oed
- Hyd at 50 y cant o'r costau hyfforddi os yw'r prentis dros 25 oed.[32]

Yr Adran Addysg sy'n cyllido'r prentisiaethau os yw'r prentis o dan 19 oed, a'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau sy'n talu amdanynt os yw'r prentis yn 19 oed neu'n hŷn.

Yn 2010, comisiynodd Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg Llywodraeth y DU yr Athro Alison Wolf i gynnal **arolwg annibynnol ar addysg alwedigaethol yn Lloegr.** Cyflwynodd adroddiad ym **mis Mawrth 2011** ac mae ei **hargymhellion yn cynnwys: gwerthuso'r strwythur ar gyfer darparu prentisiaethau a'u cynnwys i sicrhau eu bod yn darparu'r sgiliau cywir ar gyfer y gweithle, a galluogi darlithwyr addysg bellach a phobl broffesiynol i ddysgu mewn ysgolion, gan sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu haddysgu gan y bobl fwyaf addas i wneud hynny.** [33]

Cododd *Deddf Addysg a Sgiliau 2008* yr oedran isaf y gall pobl ifanc yn Lloegr adael sefydliad dysgu, sy'n ei gwneud yn ofynnol eu bod yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant tan eu bod yn 17 oed o 2013 a'u bod yn 18 oed o 2015. Gallai hyn effeithio ar y darlun o'r ddarpariaeth o brentisiaethau yn Lloegr yn y dyfodol. Yn ddiddorol, nododd yr Athro Wolf mewn papur a gyhoeddwyd yn 2007:

---

[31] Apprenticeships.org.uk, *Q&As* [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[32] Y Comisiwn Cyflogau Isel, *National Minimum Wage. Low Pay Commission Report 2011* a gwefan y Gwasanaeth Prentisiaethau Cenedlaethol, *Training and funding* [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[33] Wolf, A., *Review of Vocational education - The Wolf Report*, Mawrth 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]

> All young people, and not only the advantaged and university-bound, should have the opportunity to take up such education and training, but at a time when they, not the Government, identify and want it.[34]

Mae'r tudalennau a ganlyn ar wefannau'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a Senedd y DU yn cynnwys gwybodaeth am brentisiaethau yn Lloegr ac am hyfforddiant, a allai fod o ddiddordeb:

- *Prentisiaethau.*
- *Hyfforddiant.*

Mae'r ystadegau ar oedolion sy'n dysgu neu sy'n dilyn prentisiaethau yn Lloegr wedi'u nodi yn natganiad ystadegol yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau: *Post-16 Education & Skills: Learner Participation, Outcomes and Level of Highest Qualification Held*.

## 6.2. Gogledd Iwerddon

Yn 2005, gosododd Gweinidog Cyflogaeth a Dysgu Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon darged i gynyddu nifer y prentisiaid yng Ngogledd Iwerddon i 10,000 erbyn 2010. Yn 2009, cyhoeddodd Syr Reg Empey, y Gweinidog Cyflogaeth ar y pryd, fod 10,193 o bobl yn dilyn prentisiaethau bryd hynny.[35] **Dywedodd Stephen Farry, y Gweinidog Cyflogaeth a Dysgu presennol, ym mis Hydref 2011:**

> The success of Apprenticeships NI is reflected in the current record **occupancy figure of over 12,300 apprentices**, which is an excellent achievement in these challenging economic times. I remain committed to the delivery of Apprenticeships and this is evidenced further by retaining 50% funding for adult apprentices from October 2011, despite budgetary pressures.[36]

Gall fframweithiau prentisiaethau gymryd rhwng dwy a phedair blynedd i'w cwblhau, gan ddibynnu ar lefel yr astudiaethau. Maent yn arwain at gael Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ). Maent yn cynnwys:

- NVQ Lefel 2/Lefel 3;
- Sgiliau Hanfodol, y mae'n rhaid iddynt gynnwys Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif. Mae'n debygol y bydd TGCh yn dod yn orfodol hefyd.

---

[34] Wolf, A., *Diminished Returns. How Raising the Leaving Age to 18 Will Harm Young People and the Economy*, 2007. Erthygl BBC News, *Cut school leaving age to 14, says Sir Chris Woodhead***,** 3 Hydref 2011, adroddiadau ar farn cyn archwilydd ysgolion Lloegr ar oedran gadael yr ysgol [fel ar 21 Tachwedd 2011]

[35] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Datganiad i'r Wasg, *Smith Sets 10,000 Apprenticeship Target for NI By 2010*, 17 Tachwedd 2005, a *Over 10000 apprentices currently in training*, 11 Chwefror 2009 [fel ar 21 Tachwedd 2011]

[36] Cynulliad Gogledd Iwerddon, *AQO 628/11-15*, Gordon Dunne i Stephen Farry (y Gweinidog Cyflogaeth a Dysgu), Atebion Ysgrifenedig i Gwestiynau, 28 Hydref 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]

- Elfennau gorfodol neu ddewisol eraill a nodir gan y diwydiant penodol ar gyfer y maes galwedigaethol;
- Tystysgrif Dechnegol, lle y bo'n addas, ar gyfer y Fframwaith Prentisiaethau o dan sylw.[37]

Mae dros 100 o fframweithiau ar gael ar Lefel 2 a Lefel 3, sydd wedi'u rhestru ar y dudalen a ganlyn ar wefan *NI Direct*: *Frameworks for ApprenticeshipsNI*. Efallai y bydd y dudalen a ganlyn o ddiddordeb hefyd: *Questions and answers on ApprenticeshipsNI*.

Mae prentis yn cael cyflog ac yn gweithio ar y cyd gyda'r cyflogwr neu gyda staff profiadol y cyflogwr i gael eu prentisiaeth. **Trefnir hyfforddiant heb fod mewn swydd fel arfer ar sail diwrnod astudio gyda chyflenwr hyfforddi a gontractiwyd gan yr Adran Cyflogaeth a Dysgu. Yr Adran sy'n talu am gostau'r hyfforddiant hwn.**

Mae *Fframwaith Hawliau* yr Adran Addysg yn canolbwyntio ar roi mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddisgyblion sy'n 14 oed neu'n hŷn o ran eu cyfleoedd dysgu, gan gynnwys **dewis gofynnol o gyrsiau galwedigaethol.** Mewn dogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011, dywedodd yr Adran Cyflogaeth a Dysgu yr hyn a ganlyn:

> [we will] **encourage a greater uptake of economically relevant vocational qualifications available in FE colleges for schools to access in the context of the Entitlement Framework** which could help to stimulate those students who have disengaged from school.[38] [pwyslais yr awdur]

Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ym mis Mehefin 2011 a, phan luniwyd y ddogfen hon, nid oedd dyddiad cyhoeddi ar gyfer y strategaeth yn hysbys.

## *6.3. Yr Alban*

Caiff y **fframweithiau Prentisiaethau Modern** yn yr Alban eu datblygu gan y Cynghorau Sgiliau Sector ar ôl ymgynghori â chyflogwyr. Yna, caiff yr holl fframweithiau newydd neu ddiwygiedig eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Grŵp Prentisiaethau Modern, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban, Skills Development Scotland, Awdurdod Cymwysterau yr Alban, Cynghrair o Gynghorau

---

[37] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, *Apprenticeships. Which one works for you? A Guide for Employers* [fel ar 21 Tachwedd 2011]

[38] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, *Pathways to Success - Establishing an initial broad strategic direction and supporting cross-Departmental actions to reduce the number of young people most at risk of remaining outside education, employment or training (NEET)*, Mawrth 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]

Sgiliau Sector yr Alban, Ffederasiwn Hyfforddi yr Alban, Colegau'r Alban a Chyngres Undebau Llafur yr Alban.[39]

Ar gyfer **Prentisiaethau Modern**, yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r prentisiaid yn gweithio tuag at gael SVQ ar Lefel 2 neu uwch, gan astudio'n rhan amser am rhwng dwy a phedair blynedd i gael y cymhwyster.[40] **Y cyflogwyr a Skills Development Scotland sy'n talu am y costau o hyfforddi'r cyflogeion, a Skills Development Scotland sy'n darparu'r hyfforddiant**.

Mae gwasanaeth paru digidol ar gyfer cyflogwyr a darpar brentisiaid ar gael, yn *Apprenticeships in Scotland*.

Y rhaglenni sy'n ymwneud â phrentisiaethau yn yr Alban yw **Training for Work**, sy'n darparu cymorth ar hyfforddiant galwedigaethol i bobl 18 oed neu'n hŷn a fu'n ddi-waith am o leiaf 13 wythnos yn olynol ac sy'n chwilio am waith, a **Get Ready for Work**, sy'n trefnu hyfforddiant sgiliau a phrofiad gwaith i bobl rhwng 16 a 19 oed sy'n cael trafferth cael mynediad i hyfforddiant, dysgu a chyflogaeth.[41] Skills Development Scotland sy'n darparu'r rhaglenni hyn hefyd.

Gosodwyd targedau ar gyfer 2010-11 i Skills Development Scotland gynnig 15,000 o brentisiaethau modern newydd, yn ogystal â 5,000 o brentisiaethau modern i bobl o bob oed, sef cyfanswm o 20,000 o leoedd yn 2010-11.[42] Bydd cyflogwyr yn cael eu hannog, lle bo hynny'n bosibl, i ystyried pobl ifanc a fyddai fel arall yn cael trafferth dod o hyd i brentisiaeth. Nododd Llywodraeth yr Alban hefyd:

> As part of the 2010-11 provision a £1,000 incentive will be offered by SDS for up to 2,000 [Modern Apprenticeship] places for 16 and 17 year olds with a particular focus on those who have participated on the Get Ready for Work programmes and those leaving care.[43]

Gwnaeth Llywodraeth yr Alban ymrwymiad yn ddiweddar i ddarparu 25,000 o brentisiaethau modern ym mhob blwyddyn o'r Senedd, o 2011-12.[44]

## Rhagor o wybodaeth

Yn 2010, cyhoeddodd Ysgol Economeg Llundain a'r Ganolfan Gwyddoniaeth Gwleidyddol ar gyfer Perfformiad Economaidd adroddiad a allai fod o ddiddordeb: *The State of Apprenticeship in 2010: International Comparisons. Australia, Austria, England, France, Germany, Ireland, Sweden, Switzerland, 2010*

[39] Llywodraeth yr Alban, *Skills for Scotland: Accelerating the Recovery and Increasing Sustainable Economic Growth*, 2010 [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[40] Skills Development Scotland, *Modern Apprenticeships* [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[41] Skills Development Scotland, *Training for Work* a *Get Ready for Work* [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[42] Llywodraeth yr Alban, *Skills for Scotland: Accelerating the Recovery and Increasing Sustainable Economic Growth*, 2010 [fel ar 21 Tachwedd 2011]
[43] Ibid.
[44] Llywodraeth yr Alban, *Strategaeth Economaidd y Llywodraeth*, 2011, a Llywodraeth yr Alban, *Arolwg o Wariant yr Alban 2011 a Chyllideb Ddrafft 2012-13*, 2011 [fel ar 21 Tachwedd 2011]